# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 28 Chwefror 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4250

# 53(v5)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.58, atebodd Arweinydd y Tŷ ar ran y Prif Weinidog.

Gofynnwyd cwestiynau 1-3 a 5-9. Tynnwyd cwestiwn 4 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Arweinydd y Tŷ ar ôl cwestiwn 2.

### Pwynt o Drefn

Cododd Rhun ap Iorwerth Bwynt o Drefn ynghylch sylwadau a wnaed gan Arweinydd Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig am ymddygiad Leanne Wood AC a Jonathan Edwards AS yn ystod ymgyrch ar ddyfodol ysgol yn Llangennech.

Atgoffwyd yr Aelodau gan y Llywydd i ddangos cwrteisi bob amser yn y Siambr tuag at gyd-Aelodau etholedig ac Aelodau Seneddol.

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.20

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Gwerthusiad Annibynnol o Fodel Ymateb Clinigol y Gwasanaethau Ambiwlans Brys

Dechreuodd yr eitem am 14.25

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Adolygiad Addysg ac Argymhellion y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd

Dechreuodd yr eitem am 15.01

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Dyfodol Gwasanaethau Bysiau Lleol

Dechreuodd yr eitem am 15.38

## 6 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Cyllid Arloesol: Model Buddsoddi Cydfuddiannol

Dechreuodd yr eitem am 16.32

## 7 Dadl: Egwyddorion Cyffredinol Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 17.15

**NDM6241 Rebecca Evans (Gŵyr):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).

Gosodwyd Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 7 Tachwedd 2016.

Gosodwyd adroddiad Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 10 Chwefror 2017.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 18.23

**NDM6242** Jane Hutt (Bro Morgannwg)
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 9 Cyfnod pleidleisio

Daeth y cyfarfod i ben am 18.24

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 1 Mawrth 2017**